Dee Montague-Coast

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn Ymddiriedolwr?

Rwy'n arweinydd sy'n ysbrydoli eraill gydag agwedd digynnwrf, positif ac awydd i wrando a dysgu. Rwy'n hoyw ac yn anabl; mae gennyf brofiad bywyd o'r rhwystrau di-ri sy'n wynebu pobl wedi'u hymyleiddio ym mhob rhan o gymdeithas, ac rwy'n awyddus iawn i'w chwalu. Fi yw unig gyflogai'r elusen Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTWW) ar hyn o bryd, lle mae gennyf y fraint o weithio gyda gwirfoddolwyr ac aelodau ymrwymedig, arbenigwyr trwy brofiad sy'n ymrwymedig i greu newidiadau positif o fewn yr amgylcheddau o'u cwmpas. Cyn ymuno ag FTWW, bûm yn weithiwr proffesiynol medrus yn y meysydd marchnata, cysylltiadau cyhoeddus a datblygu a recriwtio aelodau mewn amrywiaeth eang o fudiadau trydydd sector ac addysgol, gan gynnwys y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, Coleg Celfyddydau Henffordd, Coleg Cenedlaethol Brenhinol y Deillion, a Halo Leisure. Yn ogystal â'm gwaith ar gyfer FTWW, rwy'n gwirfoddoli ar gyfer y mudiad, a chyda phrofiadau amrywiol o wirfoddoli mewn chwaraeon ac yn y gymuned. Rwy'n ymrwymedig i wneud gwahaniaeth ac i rymuso eraill i wneud hynny, ac – ar ôl cwblhau'r cynllun Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal yn ddiweddar – hoffwn ddod yn aelod o fwrdd CGGC er mwyn helpu i wneud gwahaniaeth ledled Cymru.